CO22117 - Heol Atlas – Heol Beda - Groesfan Bwrdd Arafu

Disgrifiad o Gynnig y Cynllun

Mae'r cyngor yn rhoi gwybod i breswylwyr am gynlluniau i wneud newidiadau i'r briffordd ar Heol Atlas ger y gyffordd ag Heol Beda. Codwyd pryderon ynghylch cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr yma. Mewn ymateb i hyn, mae swyddogion y Cyngor wedi ymchwilio i opsiynau er mwyn gwneud gwelliannau a fydd yn helpu i greu amgylchedd priffordd sy'n fwy diogel.

Y prif broblemau diogelwch ar y ffordd a nodwyd oedd cyflymder cerbydau a diogelwch cerddwyr.

Mae'r cynllun hwn felly wedi'i ddatblygu i wneud y canlynol:

- Lleihau cyflymder cerbydau
- Uwchraddio'r groesfan bresennol i gerddwyr yn groesfan bwrdd arafu.

Bydd y mesurau'n creu amgylchedd mwy diogel i gerddwyr, yn benodol i ddefnyddwyr agored i niwed a disgyblion ysgol, a bydd yn gwella hygyrchedd yr ardal gymunedol, y siopau a'r gwasanaethau bysus lleol.

Mae cyllid wedi ei sicrhau ar gyfer y cynllun hwn gan Gronfa Llwybrau Diogel yn y Gymuned Llywodraeth Cymru.

Rhagor o Wybodaeth am fesurau rheoli traffig

Croesfan Sebra â Bwrdd. ***Croesfan sebra*** sy'n cynnwys bwrdd arafu, neu sydd ar ***gyffordd fwrdd,*** yn rhan o fesurau ehangach i arafu traffig neu ar ei ben ei hun.

Cyffordd Fwrdd. Mae cyffordd fwrdd yn debyg i dwmpath ffordd. Dyrchefir y gyffordd gyfan i greu platfform, sy'n lleihau cyflymder cerbydau. Mae darparu cyffordd fwrdd yn creu cyffordd ddiogelach drwy arafu'r holl gerbydau sy'n agosáu at y gyffordd gan felly gynnig allanfa ddiogelach o bob rhan o'r gyffordd.

Mae'r Cyngor yn ymgynghori ar y cynnig ar y cynllun a ddangosir.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Mae rhagor o fanylion am yr ymgynghori hwn ar gael yn www.caerdydd.gov.uk/transportprojects ar y ddolen 'gweld ymgynghoriadau'. Fel arall, e-bostiwch Projectautrafnidiaeth@caerdydd.gov.uk neu ffoniwch 029 2087 3802 i ofyn am gopi papur. Os hoffech wneud unrhyw sylwadau am y cynnig rhowch wybod i ni erbyn 18.11.22



The Council is consulting on the proposal on the plan shown.

A Proud Capital
Prifddinas Falch
CARDIFF
CAERDYDD

Further details about this consultation are available at www.cardiff.gov.uk/TransportProjects using the 'view consultations' link. Alternatively, please e-mail TransportProjects@cardiff.gov.uk or telephone 029 2087 3802 to request a paper copy. If you would like to make any comments about this proposal please let us know by 18.11.22